



Y Wibdaith


Roderick Hunt

Alex Brychta

Coeden
Ddarllen
Rhydychen



Tylluanod



DRAKE



Daeth bws at yr ysgol.

Dringodd y plant i mewn.


'Rwy'n hoffi mynd allan,' meddai Wilff.

'Peidiwch â gwthio,' meddai Mrs Jones.




Cychwynnodd y bws.
'Hwrê!' gwaeddodd y plant.
'Rydyn ni'n mynd i'r sw.'
'Peidiwch â gweiddi, blant,' meddai Mrs Jones.

Eisteddodd Dids gyda Cad.
Eisteddodd Wilff gyda Nadim.
'Mae hyn yn hwyl,' gwaeddodd Nadim.
'Ydy, os na fyddi di'n gweiddi,' meddai Mrs Jones.



Stopiodd y bws ar y ffordd.
Dringodd y plant allan.
Edrychodd rhai plant ar y dŵr.
Aeth rhai plant i'r tŷ bach.


'Peidiwch â rhedeg o'ma,' meddai Mrs Jones,
'a pheidiwch â mynd yn rhy agos at y dŵr.'



Ciciodd Wilff garreg a daeth ei esgid i ffwrdd.
Glaniodd yr esgid yn y dŵr
â sblash.
'O Wilff!' meddai Cad.




Fedrai Wilff ddim cyrraedd at ei esgid.
Dywedodd wrth Mrs Jones.
'Am beth gwirion i'w wneud,' meddai hi.
'Wn i ddim beth fedrwn ni ei wneud.'



Pan gyrhaeddod nhw' r sw dechreuodd fwrw
glaw.

Dringodd y plant allan o'r bws ac
aeth Mrs Jones i gael y tocynnau.

Roedd Nadim am weld yr elffantod.
Roedd Wilff am weld y llewod ac
roedd Cad am weld y crocodeilod.
'Am law!' meddai Mrs Jones.



Glawiodd a glawiodd.
Roedd y plant wedi syrffedu.
Roedd yr anifeiliaid wedi syrffedu hefyd.
'Peidiwch â gwlychu,' meddai Mrs Jones.



Pheidiodd y glaw ddim felly dringodd
y plant yn ôl i'r bws.
'Gawn ni fynd i'r amgueddfa?' gofynnodd Nadim.
'Am syniad da!' meddai Mrs Jones.



Aethon nhw i amgueddfa.

'Mae hyn yn dda,' meddai Wilff.


'Gallwn weld deinosoriaid fan hyn.'

'Rwy'n hoffi deinosoriaid,' meddai Nadim.

Dechreuon nhw redeg at y deinosoriaid.

'Peidiwch â rhedeg,' meddai Mrs Jones.

'Fydd y deinosoriaid ddim yn mynd i ffwrdd.'



Edrychion nhw ar ddeinosor mawr.
'Beth yw'r enw ar hwn?' gofynnodd Wilff.
'Wn i ddim eto,' meddai Nadim.
'Beth am fynd i weld?'

Roedd ei chamera gan Cad.
Tynnodd lun o'r deinosor.
'Beth yw'r enw ar hwn?' gofynnodd.
'Apatosor yw e,' meddai Nadim.



Aeth y plant i ystafell.
Soniodd gwraig wrthyn nhw am ddeinosoriaid
a dangosodd luniau iddyn nhw.

'Rwy'n gwybod beth yw'r enw ar hwnna,'
meddai Nadim.


'Apatosor yw e.'

'Da iawn, Nadim,' meddai Mrs Jones.



Aeth y plant i'r siop.
Cafodd Wilff lyfr am ddeinosoriaid.
Cafodd Nadim fodel i'w wneud.
Model o apatosor oedd e.

'Gallaf ei wneud gartre,' meddai.
'Dere i'n tŷ ni,' meddai Dids.
'Gallwn ni dy helpu di.'




Cyrhaeddodd y bws yn ôl wrth yr ysgol.
Roedd yn amser mynd adre.
'Diolch,' meddai'r plant.
'Diolch am ddiwrnod hyfryd.'

'Hwyl fawr, Mrs Jones,' meddai Nadim.
'Gawn ni dynnu lluniau deinosoriaid yfory?'
'Am syniad da!' meddai Mrs Jones.



Aeth Nadim a Wilff adre gyda
Cad a Dids.
Aethon nhw i ystafell Cad a
dechrau gwneud y model.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Rhedodd Cad at y bocs a'i godi.
'Dewch ymlaen,' meddai.
'Mae'n bryd cael antur hud.'



‘Dere Nadim,’ galwodd Cad.
‘Rydyn ni’n mynd ar antur hud.
Rydyn ni’n mynd i wlad
y deinosoriaid.’

3 Y Wibdaith

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Alliwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwylt
Yr Allwedd Sgleiniog

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Tylluanod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-250-8



9 780861 742509

ISBN 0 86 174250 8

DRAKE